TGAU

TGAU CBAC

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

TGAU CBAC

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (GRADD DWYRADD)

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

Addysgu o 2019
I'w ddyfarnu o 2021

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w addysgu o 2019
I'w ddyfarnu o 2021

# TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT (Gradd Unigol a Dwyradd)

# DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **Arholiadau** | | |
| UNED 1: | Twf, datblygiad a llesiant dynol | |
| | Papur cwestiynau | 3 |
| | Cynllun marcio | 15 |
| UNED 3: | Iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn yr 21ain Ganrif | |
| | Papur cwestiynau | 39 |
| | Cynllun marcio | 52 |

| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | | | | | Rhif yr Ymgeisydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |

**TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**UNED 1**

**TWF, DATBLYGIAD A LLESIANT DYNOL**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 30 munud**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch BOB cwestiwn.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Peidiwch â defnyddio pensil na phen gel.

Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Cewch eich cynghori i rannu eich amser yn unol â hynny.

Mae cyfanswm o 80 marc ar gael.

Cofiwch fod angen i chi ysgrifennu eich atebion mewn Cymraeg da a'u cyflwyno'n drefnus. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd priodol o atalnodi a gramadeg, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 8(c).

*Atebwch **bob** cwestiwn.*

1. (a) Llenwch y tabl isod drwy ychwanegu'r cam bywyd sydd ar goll. [1]

| **Cam bywyd** | **Oedrannau** |
|---|---|
| Babandod | 0 – 2 oed |
| | 3 – 12 oed |
| Llencyndod | 13 – 19 oed |

(b) Cwblhewch y gosodiad canlynol.

Mae'r term 'twf' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cynnydd mewn

……………..…………. a ……………..…………. [2]

2. Mae Christopher yn 3 oed.

Yn y tabl isod, ticiwch **un** blwch i ddangos y prif faes datblygiad ar gyfer **pob un** o weithredoedd Christopher. [3]

| Gweithred Christopher | Prif faes datblygiad | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Corfforol | Deallusol | Emosiynol | Cymdeithasol |
| (a) Mae'n dal pêl wedi'i thaflu gan ei fam. | | | | |
| (b) Pan oedd ei ffrind wedi brifo, dangosodd bryder. | | | | |
| (c) Mae'n gofyn llawer o gwestiynau i'w dad am bethau gwahanol. | | | | |

3. Mae plant yn dilyn patrymau datblygiad disgwyliedig sy'n aml yn cael eu galw yn gerrig milltir.

Rhowch **un** enghraifft ar gyfer **pob un** o'r cerrig milltir datblygiadol bydd plentyn fel arfer wedi'u cyflawni yn 2 oed.

(a) Sgil echddygol fanwl. [1]

.............................................................................................................

.............................................................................................................

(b) Carreg filltir gymdeithasol. [1]

.............................................................................................................

.............................................................................................................

(c) Carreg filltir ddeallusol. [1]

.............................................................................................................

.............................................................................................................

4. Mae unigolion yn cael budd o gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gydol eu hoes.

(a) Mae Glenda yn 76 oed ac mae wedi dewis nofio bob wythnos yn ei phwll nofio lleol.

(i) Nodwch gam bywyd Glenda. [1]

……………………………………………………………………………………………

(ii) Esboniwch fuddion posibl nofio mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. [4]

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………

..……………………………………………………………………………………………

..……………………………………………………………………………………………

..……………………………………………………………………………………………

..……………………………………………………………………………………………

..……………………………………………………………………………………………

..……………………………………………………………………………………………

(b) Mae Daniel yn 36 oed ac wedi colli ei swydd yn ddiweddar. Mae wedi dewis ymweld â'i lyfrgell leol yn rheolaidd a benthyg llyfrau.

(i) Nodwch gam bywyd Daniel. [1]

…..…………………………………………………………………………………………

(ii) Esboniwch effeithiau cadarnhaol ymweld â'i lyfrgell leol a benthyg llyfrau ar ddatblygiad a llesiant Daniel. [4]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

5. Mae imiwneiddio yn bwysig i bawb.

(a) Enwch y clefydau mae babanod yn cael eu hamddiffyn rhagddyn nhw pan fyddan nhw'n cael y brechlynnau canlynol:

(i) brechlyn *MMR*. [1]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(ii) brechlyn triphlyg *DTP*. [1]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(b) Nodwch **ddau** fudd sy'n gysylltiedig ag imiwneiddio. [2]

(i) ……………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………

(ii) ……………………………………………………………………………………

...……………………………………………………………………………………

(c) Trafodwch pam bod rhieni/gofalwyr o bosibl yn dewis peidio ag imiwneiddio eu plant. [4]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

6. Mae gan deulu Davies ddau blentyn ifanc. Mae David yn 6 oed ac mae Elen yn 2 oed.

(a) Mae Elen yn mynychu cylch iaith a chwarae fel rhan o raglen Dechrau'n Deg.

(i) Nodwch **ddwy** elfen arall sy'n gysylltiedig â rhaglen Dechrau'n Deg. [2]

1. ……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

2. ……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(ii) Esboniwch sut gall mynychu cylch iaith a chwarae gefnogi datblygiad Elen. [3]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(b) Pan fydd yn y cylch chwarae, mae Elen yn cael byrbryd a diod. Esboniwch sut gall deiet Elen effeithio ar ei llesiant. [3]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(c) Mae gan David gyflwr tymor hir.

(i) Nodwch **un** cyflwr tymor hir a allai fod gan David. [1]

..................................................................................................................

(ii) Trafodwch effeithiau posibl y cyflwr tymor hir hwn ar ddatblygiad a llesiant David. [4]

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

(iii) Ystyriwch y gofal a'r cymorth ychwanegol y gall fod eu hangen ar David oherwydd ei gyflwr. [4]

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

7. Mae Jack yn 49 oed.

Mae wedi trefnu apwyntiad am archwiliad blynyddol yn y clinig dynion iach. Mae'r meddygon yn y ganolfan iechyd yn credu bod archwiliadau rheolaidd yn bwysig.

(a) Amlinellwch pam bod archwiliadau rheolaidd yn bwysig er mwyn sicrhau iechyd da. [3]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(b) Diffiniwch 'Cyfranogiad Gweithredol' *(Active Participation)*. [2]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(c) Mae Jack yn ceisio cadw ei hun yn iach bob amser.

Esboniwch fuddion Cyfranogiad Gweithredol i Jack mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'i iechyd a'i lesiant. [6]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(ch) Mae presenoldeb mewn clinigau dynion/merched iach yn cael ei annog yn gryf er mwyn hybu iechyd a llesiant.

Disgrifiwch **un** gwasanaeth iechyd ymyrryd yn gynnar/atal arall sydd ar gael ar hyn o bryd i oedolion yng Nghymru. [5]

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

8. Mae Sarah yn mynychu prifysgol mewn dinas fawr. Mae'n 19 oed ac yn byw oddi cartref mewn fflat bach sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n wael mewn ardal breswyl ddifreintiedig.

Er mwyn ategu ei grant myfyrwyr, mae Sarah yn gweithio mewn bwyty lleol y rhan fwyaf o nosweithiau felly nid oes ganddi lawer o amser i gymdeithasu â ffrindiau, nac i wneud ymarfer corff, yr oedd yn arfer ei fwynhau. Mae hefyd yn ei chael hi'n anodd cwblhau ei hastudiaethau a bodloni terfynau amser o ran ei gwaith cwrs.

(a) Dadansoddwch sut gallai ffordd o fyw Sarah effeithio ar ei llesiant emosiynol. [5]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

(b) Amlinellwch y broses ‘ymwybyddiaeth ofalgar' (*mindfulness)* ac esboniwch yn gryno sut gallai helpu Sarah. [5]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

(c) Aseswch y ffyrdd y gallai tai o ansawdd gwael ac incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah. [10]

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i arholwyr

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae’r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu’r dull o’i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael dim marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Mae *Cynnwys 'Dylid rhoi credyd am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi credyd yn ôl cywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Adlewyrchir terminoleg briodol yn yr ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir dyfarnu marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau sy'n cael eu marcio drwy fandiau mae cynlluniau marcio mewn dwy ran, y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu’r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodir uchod, ni fwriedir i'r cynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac nid oes yn rhaid i ymgeiswyr gynnwys yr holl gynnwys dangosol er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy’n berthnasol i’r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Mewn TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae’r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a’r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Caiff ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau eu hasesu yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredin ar gyfer y cwestiwn.

Dylid bob amser farcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau marciau drwy roi marciau yn hytrach na'u tynnu. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, y caiff marciau eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: ni chânt eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth a gaiff ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso’r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i’r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band hyd nes y bydd y disgrifyddion yn cyfateb i’r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull ‘ffit orau’ er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai’r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai’r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i’r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd arholwyr yn derbyn enghreifftiau o atebion ym mhob band y mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai’r arholwyr farcio enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau’r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn er mwyn penderfynu p'un a yw ateb ymgeisydd o safon uwch, is neu debyg i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr o'r angen i gyfeirio yn ôl at yr ateb wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a roddwyd yn briodol i'r ateb a gyflwynwyd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | (a) | *Llenwch y tabl isod drwy ychwanegu'r cam bywyd sydd ar goll*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am y cam bywyd cywir – Plentyndod | 1 | | | 1 |
| | (b) | *Cwblhewch y gosodiad canlynol.*<br>*Mae'r term 'twf' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cynnydd mewn*<br>*……….……..………..…….. a …….……..………..…….*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am fàs neu bwysau<br>Dyfarnwch **1 marc** am daldra | 2 | | | 2 |
| 2. | | *Mae Christopher yn 3 oed.*<br>*Yn y tabl isod, ticiwch un blwch i ddangos y prif faes datblygiad ar gyfer pob un o weithredoedd Christopher.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am bob ateb cywir.<br>(a) Corfforol<br>(b) Emosiynol<br>(c) Deallusol. | | 3 | | 3 |
| 3. | (a) | *Mae plant yn dilyn patrymau datblygiad disgwyliedig sy'n aml yn cael eu galw yn gerrig milltir.*<br><br>*Rhowch un enghraifft ar gyfer pob un o'r cerrig milltir datblygiadol bydd plentyn fel arfer wedi'u cyflawni yn 2 oed.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am nodi sgil echddygol fanwl yn gywir, fel:<br>• mae'n sgriblo yn ddigymell<br>• mae'n troi cynhwysydd drosodd er mwyn arllwys y cynnwys allan<br>• mae'n adeiladu tŵr o bedwar bloc neu fwy<br>• efallai ei fod yn defnyddio un llaw yn amlach na'r llall<br>• mae'n defnyddio llwy neu fforc i fwydo ei hun<br>• mae'n tynnu ffasnydd sip mawr i fyny<br>• mae'n troi byliau ac yn cylchdroi carnau<br>• mae'n troi tudalennau llyfr, un ar y tro.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw sgil echddygol fanwl ddilys arall a ddisgwylir gan blentyn 2 oed. | 1 | | | 1 |
| | (b) | Dyfarnwch **1 marc** am nodi carreg filltir gymdeithasol yn gywir, fel:<br>• mae'n efelychu ymddygiad eraill, yn enwedig oedolion a phlant hŷn<br>• mae'n gynyddol ymwybodol ohoni ei hun fel unigolyn ar wahân i eraill<br>• mae'n gynyddol frwdfrydig am gwmni plant eraill<br>• mae'n dangos annibyniaeth gynyddol<br>• mae'n dechrau dangos ymddygiad herfeiddiol<br>• nifer cynyddol o episodau o ofid gwahanu tua chanol y flwyddyn, a fydd wedyn yn lleihau.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw garreg filltir gymdeithasol ddilys arall a ddisgwylir gan blentyn 2 oed. | 1 | | | 1 |

| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm Marciau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | Dyfarnwch **1 marc** am nodi carreg filltir ddeallusol yn gywir, fel:<br>• mae'n pwyntio at wrthrych neu lun pan gaiff ei enwi<br>• mae'n adnabod enwau pobl a gwrthrychau cyfarwydd a rhannau cyfarwydd o'r corff<br>• mae'n dweud sawl gair unigol (erbyn rhwng 15 a 18 mis)<br>• mae'n defnyddio ymadroddion syml (erbyn rhwng 18 a 24 mis)<br>• mae'n defnyddio brawddegau sy'n cynnwys rhwng dau a phedwar gair<br>• mae'n dilyn cyfarwyddiadau syml<br>• mae'n ailadrodd geiriau mae'n eu clywed mewn sgyrsiau<br>• mae'n dod o hyd i wrthrychau pan fyddant wedi'u cuddio o dan ddau neu dri gorchudd<br>• mae'n dechrau didoli yn ôl siapiau a lliwiau<br>• mae'n dechrau chwarae gan ddefnyddio ei ddychymyg<br>• mae ei gof yn dod yn fwy craff, mae'n dechrau cofio pobl, pethau a lleoedd<br>• mae'n dechrau siarad amdano'i hun.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw garreg filltir ddeallusol ddilys arall a ddisgwylir gan blentyn 2 oed. | 1 | | | 1 |
| 4. | (a) | *Mae unigolion yn cael budd o gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gydol eu hoes.*<br><br>*Mae Glenda yn 76 oed ac mae wedi dewis nofio bob wythnos yn ei phwll nofio lleol.*<br><br>*(i) Nodwch gam bywyd Glenda.*<br>*(ii) Esboniwch fuddion posibl nofio mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda.*<br><br>(i) Dyfarnwch **1 marc** am y cam bywyd cywir – diwedd oedolaeth<br>(ii) Dyfarnwch hyd at **4 marc** am esboniad o fuddion posibl nofio mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda, er enghraifft:<br>• gwella dygnwch cardiofasgwlar<br>• helpu i leihau pwysedd gwaed<br>• cadw'r cymalau yn ystwyth a gwella hyblygrwydd<br>• datblygu cyhyrau craidd cryf a sefydlog er mwyn gallu cynnal cydbwysedd<br>• mae'n llai tebygol o fagu pwysau a dod yn ordew<br>• mae'n llai tebygol o ddatblygu cyflyrau sy'n gysylltiedig â gordewdra, fel strôc, clefyd y galon a diabetes Math 2<br>• llai o orbryder a hwyliau hapusach<br>• llai o deimladau o straen/mwy o lonyddwch<br>• mwy o hunan-barch<br>• buddion cymdeithasol ac emosiynol sy'n dda ar gyfer iechyd meddwl, fel gwneud ffrindiau a chysylltu â phobl, cael hwyl.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw ymateb dilys arall sy'n esbonio buddion posibl nofio mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. | (i) 1 | (ii) 4 | | (i) 1<br>(ii) 4 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **4 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o fuddion posibl nofio mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. Mae'r ateb yn creu cysylltiad clir rhwng y gweithgaredd nofio a'r budd i iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. |
| **3** | **3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fuddion posibl nofio mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. Mae'r ateb yn creu cysylltiad rhwng y gweithgaredd nofio a'r budd i iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. |
| **2** | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o fuddion posibl nofio mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. Mae'n bosibl nad yw'r ymateb yn creu cysylltiad llawn rhwng y gweithgaredd nofio a'r budd i iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o fuddion posibl nofio mewn perthynas ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl Glenda. Nid yw'r ymateb yn creu cysylltiad penodol rhwng nofio a'r budd i iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl Glenda. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Mae Daniel yn 36 oed ac wedi colli ei swydd yn ddiweddar. Mae wedi dewis ymweld â'i lyfrgell leol yn rheolaidd a benthyg llyfrau.*<br><br>*(i) Nodwch gam bywyd Daniel.* *[1]*<br>*(ii) Esboniwch effeithiau cadarnhaol ymweld â'i lyfrgell leol a benthyg llyfrau ar ddatblygiad a llesiant Daniel.* [2]<br><br>(i) Dyfarnwch **1 marc** am y cam bywyd cywir – oedolaeth.<br>(ii) Dyfarnwch hyd at **4 marc** am esboniad o'r effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad a llesiant Daniel, er enghraifft:<br>• mae darllen yn ysgogi'r meddwl<br>• mae darllen yn gwella lefelau dysgu a gwybodaeth, a allai wella'r tebygolrwydd o ennill mwy o gymwysterau neu ddod o hyd i swydd newydd (gan felly wella incwm)<br>• bydd yr arfer reolaidd o fynd i'r llyfrgell yn rhoi ymdeimlad o bwrpas a rheolaeth i Daniel yn ei fywyd<br>• mae'n bosibl na fydd Daniel yn gweld ei gyn-gydweithwyr cymaint, felly mae'n bosibl y bydd cyfarfod â phobl newydd yn y llyfrgell yn ei atal rhag teimlo mor unig<br>• Mae buddion yn gysylltiedig â'r gweithgarwch corfforol sydd ei angen er mwyn cyrraedd y llyfrgell.<br>Dylid rhoi credyd am unrhyw ymateb dilys arall sy'n esbonio effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a llesiant. | 1 | 4 | | 1<br>4 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **4 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad a llesiant Daniel. Mae'r ateb yn creu cysylltiad clir rhwng y gweithgaredd o ymweld â'i lyfrgell leol a benthyg llyfrau a'r budd i ddatblygiad a llesiant Daniel. |
| **3** | **3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad a llesiant Daniel. Mae'r ateb yn creu cysylltiad rhwng y gweithgaredd o ymweld â'i lyfrgell leol a benthyg llyfrau a'r budd i ddatblygiad a llesiant Daniel. |
| **2** | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad a llesiant Daniel. Mae'n bosibl nad yw'r ymateb yn creu cysylltiad llawn rhwng y gweithgaredd o ymweld â'i lyfrgell leol a benthyg llyfrau a'r budd i ddatblygiad a llesiant Daniel. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o'r effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad a llesiant Daniel. Nid yw'r ymateb yn creu cysylltiad penodol rhwng y gweithgaredd o ymweld â'i lyfrgell leol a benthyg llyfrau a'r budd i ddatblygiad a llesiant Daniel. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (a) | *Mae imiwneiddio yn bwysig i bawb.*<br><br>*Enwch y clefydau mae babanod yn cael eu hamddiffyn rhagddyn nhw pan fyddan nhw'n cael y brechlynnau canlynol:*<br>*(i) brechlyn MMR*<br>*(ii) brechlyn triphlyg DTP*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am nodi'r clefydau cywir.<br>(i) Y frech goch, clwy pennau/y dwymyn doben a rwbela<br>(ii) Difftheria, tetanws a pholio<br><br>Ym mhob achos, rhaid i'r ymatebion nodi'r tri chlefyd er mwyn ennill y marc. | 1<br>1 | | | 1<br>1 |
| | (b) | *Nodwch ddau fudd sy'n gysylltiedig ag imiwneiddio.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** yr un am **ddau** fudd cywir sy'n gysylltiedig ag imiwneiddio, fel:<br>• amddiffyn rhag clefydau/helpu'r corff i ddatblygu gwrthgyrff<br>• dileu clefydau difrifol/clefydau sy'n bygwth bywyd<br>• helpu i amddiffyn plant yr unigolion hynny – mae rwbela mewn merched beichiog yn achosi dallineb<br>• atal achosion o epidemig – atal clefydau rhag cael eu trosglwyddo.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw fuddion dilys eraill sy'n gysylltiedig ag imiwneiddio. | 1<br>1 | | | 2 |
| | (c) | *Trafodwch pam bod rhieni/gofalwyr o bosibl yn dewis peidio ag imiwneiddio eu plant.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **4 marc** am drafodaeth fanwl o'r rhesymau pam bod rhieni/gofalwyr o bosibl yn dewis peidio ag imiwneiddio eu plant.<br>Gall yr atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• y gred y gall imiwneiddio achosi niwed/sgil-effeithiau, e.e. y ddadl ynghylch *MMR*, er y profwyd i'r gwrthwyneb<br>• y gred nad yw'n gweithio – e.e. brechlyn y ffliw – sawl math gwahanol o ffliw<br>• y gred nad oes angen gwneud hynny gan nad yw llawer o'r clefydau bellach yn gyffredin – mae clefydau yn debygol o ddychwelyd os na chaiff plant/unigolion eu hamddiffyn rhagddyn nhw<br>• mae ofn nodwyddau/poen ar y plentyn – teimlad anghysurus bach a tymor byr lle gallai'r clefydau achosi llawer mwy o ddioddefaint.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw reswm dilys arall pam bod rhieni/gofalwyr o bosibl yn dewis peidio ag imiwneiddio eu plant. | | | 4 | 4 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **4 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o amrywiaeth o resymau dilys pam bod unigolion o bosibl yn dewis peidio â chael eu himiwneiddio. |
| **3** | **3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddau reswm dilys o leiaf pam bod unigolion o bosibl yn dewis peidio â chael eu himiwneiddio. |
| **2** | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddau reswm tebygol o leiaf pam bod unigolion o bosibl yn dewis peidio â chael eu himiwneiddio. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o'r rhesymau pam bod unigolion o bosibl yn dewis peidio â chael eu himiwneiddio. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | (a) | *Mae gan deulu Davies ddau blentyn ifanc. Mae David yn 6 oed ac mae Elen yn 2 oed.*<br><br>Mae Elen yn mynychu cylch iaith a chwarae fel rhan o raglen Dechrau'n Deg.<br><br>*(i) Nodwch ddwy elfen arall sy'n gysylltiedig â rhaglen Dechrau'n Deg.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** yr un am ddwy elfen o blith y canlynol:<br>• gofal plant (rhan amser)<br>• gwasanaeth ymwelydd iechyd<br>• cael y cyfle i fynychu rhaglenni rhianta/magu plant. | 2 | | | 2 |
| | | *(ii) Esboniwch sut gall mynychu cylch iaith a chwarae gefnogi datblygiad Elen.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **3 marc** am esboniad o sut gall mynychu cylch iaith a chwarae gefnogi datblygiad Elen.<br><br>Gall yr atebion gyfeirio at ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol Elen, er enghraifft, datblygu'r canlynol:<br>• sgiliau echddygol manwl<br>• hunanhyder<br>• sgiliau cymdeithasol/cymysgu â phlant eraill<br>• sgiliau lleferydd, iaith, cyfathrebu.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw esboniad rhesymol o sut gall mynychu cylch iaith a chwarae gefnogi datblygiad Elen. | | 3 | | 3 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **3 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gall mynychu cylch iaith a chwarae gefnogi o leiaf ddwy agwedd ar ddatblygiad Elen. |
| 2 | **2 farc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gall mynychu cylch iaith a chwarae gefnogi o leiaf ddwy agwedd ar ddatblygiad Elen. |
| 1 | **1 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gall mynychu cylch iaith a chwarae gefnogi datblygiad Elen. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | Pan fydd yn y cylch chwarae, mae Elen yn cael byrbryd a diod. Esboniwch sut gall deiet Elen effeithio ar ei llesiant.<br><br>Dyfarnwch hyd at **3 marc** am esboniad o sut gall deiet Elen effeithio ar ei llesiant.<br><br>Gall yr atebion gyfeirio at sut gall deiet Elen effeithio ar lesiant corfforol, meddyliol neu gymdeithasol Elen, mewn ffordd gadarnhaol a/neu negyddol. Er enghraifft, gall effeithio ar y canlynol:<br>• ymddygiad<br>• cwsg<br>• twf corfforol<br>• egni<br>• cyfrannu at ffordd o fyw iach.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw esboniad rhesymol o sut gall deiet Elen effeithio ar ei llesiant. | | 3 | | 3 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gall deiet Elen effeithio ar ei llesiant, mewn ffordd gadarnhaol a/neu negyddol. |
| **2** | **2 farc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut gall deiet Elen effeithio ar ei llesiant, mewn ffordd gadarnhaol a/neu negyddol. |
| **1** | **1 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gall deiet Elen effeithio ar ei llesiant, mewn ffordd gadarnhaol a/neu negyddol. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | (c) | *Mae gan David gyflwr tymor hir.*<br><br>*(i) Nodwch un cyflwr tymor hir a allai fod gan David.*<br><br>*(ii) Trafodwch effeithiau posibl y cyflwr tymor hir hwn ar ddatblygiad a llesiant David.*<br><br>*(iii) Ystyriwch y gofal a'r cymorth ychwanegol y gall fod eu hangen ar David oherwydd ei gyflwr.* | | | | |
| | | (i) Dyfarnwch 1 marc am gyflwr tymor hir priodol, a all gynnwys y canlynol: alergedd/anaffylacsis, asthma, epilepsi, gordewdra, diabetes, clefyd y galon, arthritis, canser. | 1 | | | 1 |
| | | (ii) Dyfarnwch hyd at **4 marc** am drafodaeth o effeithiau posibl y cyflwr (y mae'n rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â'r cyflwr a nodwyd yn (i)).<br><br>Gallai'r ymatebion gynnwys effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygiad a llesiant corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol, mewn perthynas â'r cyflwr a nodwyd, er enghraifft:<br>• corfforol – lefelau symudedd is/anhawster wrth wisgo<br>• deallusol – colli ysgol oherwydd y cyflwr a syrthio y tu ôl i'r disgyblion eraill o ran y gwaith<br>• emosiynol – dicter fod ganddo'r cyflwr<br>• cymdeithasol – methu â chwarae gyda ffrindiau.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw effaith ddilys arall sy'n gysylltiedig â'r cyflwr a nodwyd yn (i). | | | 4 | 4 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **4 marc**<br>Trafodaeth ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o effeithiau posibl y cyflwr tymor hir a nodwyd ar ddatblygiad a llesiant David. Mae'r ymateb yn nodi effeithiau posibl y cyflwr hwn yn glir mewn perthynas ag o leiaf dri o blith: datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol David a'i lesiant. |
| 3 | **3 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau posibl y cyflwr tymor hir a nodwyd ar ddatblygiad a llesiant David. Mae'r ymateb yn nodi effeithiau posibl y cyflwr hwn mewn perthynas ag o leiaf ddau o blith: datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol David a'i lesiant. |
| 2 | **2 farc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau posibl y cyflwr tymor hir a nodwyd ar ddatblygiad a llesiant David. Mae'r ymateb yn gwneud ymdrech i gysylltu effeithiau posibl y cyflwr hwn ar o leiaf ddau o blith: datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol David a'i lesiant. |
| 1 | **1 marc**<br>Trafodaeth gyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o effeithiau posibl y cyflwr tymor hir a nodwyd ar ddatblygiad a llesiant David. Dim ond cysylltiadau gwan y mae'r ymateb yn eu dangos rhwng effeithiau posibl y cyflwr hwn a datblygiad a llesiant David. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (iii) Dyfarnwch hyd at **4 marc** am ystyried y gofal a'r cymorth ychwanegol y gall fod eu hangen ar David (y mae'n rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â'r cyflwr a nodwyd yn (i)).<br><br>Gallai'r ymatebion gynnwys y canlynol:<br>• cysylltiad rheolaidd â gweithwyr gwasanaeth iechyd proffesiynol, er mwyn rheoli a/neu drin y cyflwr<br>• archwiliadau rheolaidd er mwyn monitro cynnydd<br>• cymorth gan aelodau o'r teulu neu'r gymuned er mwyn hwyluso symudedd/annibyniaeth/rhyngweithio cymdeithasol/gwydnwch<br>• offer meddygol fel gwely arbennig neu declyn codi<br>• yn cynnig help o ran symudedd<br>• cymorth nyrsio cymunedol er mwyn helpu i gael triniaeth gartref, fel rhoi pigiadau neu ocsigen<br>• cymorth â threfniadau byw bob dydd fel cyfleoedd i fynychu cynlluniau chwarae<br>• mynediad at addysg (gall fod angen sesiynau tiwtora yn y cartref).<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw ymateb dilys arall sy'n gysylltiedig â'r cyflwr a nodwyd yn (i). | | | 4 | 4 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **4 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos dealltwriaeth fanwl o'r gofal a'r cymorth ychwanegol y gall fod eu hangen ar David o ganlyniad i'w gyflwr tymor hir. Mae'r ymateb yn rhoi ystyriaeth glir i ofal sy'n berthnasol i'r cyflwr, ei bwrpas a sut y gellid ei ddarparu. |
| **3** | **3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos dealltwriaeth o'r gofal a'r cymorth ychwanegol y gall fod eu hangen ar David o ganlyniad i'w gyflwr tymor hir. Mae'r ymateb yn nodi gofal sy'n berthnasol i'r cyflwr, ei bwrpas a/neu sut y gellid ei ddarparu. |
| **2** | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gofal a'r cymorth ychwanegol y gall fod eu hangen ar David o ganlyniad i'w gyflwr tymor hir. Mae'r ymateb yn nodi gofal sy'n gyffredinol berthnasol i'r cyflwr a sut y gellid ei ddarparu. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o'r gofal a'r cymorth ychwanegol y gall fod eu hangen ar David o ganlyniad i'w gyflwr tymor hir. Mae'r ymateb yn nodi rhywfaint o ofal sy'n berthnasol ar yr wyneb i'r cyflwr. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. | (a) | *Mae Jack yn 49 oed.*<br><br>*Mae wedi trefnu apwyntiad am archwiliad blynyddol yn y clinig dynion iach.*<br>*Mae'r meddygon yn y ganolfan iechyd yn credu bod archwiliadau rheolaidd yn bwysig.*<br><br>*Nodwch pam bod archwiliadau rheolaidd yn bwysig er mwyn sicrhau iechyd da.*<br><br>Dyfarnwch uchafswm o **3 marc** am amlinelliad o bwysigrwydd archwiliadau rheolaidd, fel:<br>• mae'n well atal salwch rhag digwydd nag ymdrin ag ef ar ôl iddo ddigwydd<br>• os bydd unigolion yn cadw'n iach, byddant yn gallu lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dod yn ddifrifol wael<br>• drwy arwain ffordd o fyw iach a chael archwiliadau rheolaidd, gellir canfod unrhyw salwch neu glefyd yn gynnar (mae triniaeth yn fwy effeithiol os caiff y salwch neu'r clefyd ei ganfod yn gynnar) ac mae'n bosibl na fydd yn datblygu os caiff y corff ei gadw'n iach<br>• enghreifftiau o atal, e.e. *MMR*, mynd at y meddyg teulu, sgrinio, bwyta'n iach.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw reswm dilys arall pam bod archwiliadau rheolaidd yn bwysig. | 3 | | | 3 |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 3 | **3 marc**<br>Amlinelliad da iawn, sy'n nodi tri rheswm neu fwy i ategu pwysigrwydd archwiliadau rheolaidd. |
| 2 | **2 farc**<br>Amlinelliad da, sy'n nodi dau reswm i ategu pwysigrwydd archwiliadau rheolaidd. |
| 1 | **1 marc**<br>Amlinelliad sylfaenol, sy'n darparu un rheswm i ategu pwysigrwydd archwiliadau rheolaidd. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Diffiniwch 'Cyfranogiad Gweithredol' (Active Participation).*<br><br>Dyfarnwch **2 farc** am ddiffiniad clir a chynhwysfawr, fel:<br>Mae Cyfranogiad Gweithredol yn ffordd o weithio sy'n ystyried unigolion yn bartneriaid gweithredol yn eu gofal yn hytrach na'u bod yn dderbynwyr goddefol.<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am gyfleu syniad sylfaenol o Gyfranogiad Gweithredol, fel:<br>Ystyr Cyfranogiad Gweithredol yw pan fydd rhywun yn cymryd rhan yn y penderfyniadau am eu gofal. | 2 | | | 2 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Mae Jack yn ceisio cadw ei hun yn iach bob amser. Esboniwch fuddion Cyfranogiad Gweithredol i Jack mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'i iechyd a'i lesiant.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **6 marc** am esboniad manwl o fuddion Cyfranogiad Gweithredol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'i iechyd a'i lesiant i Jack. Gall ymatebion gynnwys cyfeiriadau at y ffaith bod y canlynol yn berthnasol i Jack:<br>• buddion corfforol gan gynnwys mwy o weithgarwch a chanlyniadau iechyd gwell<br>• mwy o reolaeth dros y gofal sydd ei angen arno<br>• llai o dderbyniadau gofal heb eu cynllunio<br>• mwy o annibyniaeth ac ymreolaeth<br>• mwy o gyfleoedd am gyswllt cymdeithasol a chydberthnasau rhyngbersonol<br>• mwy o gyfranogiad mewn penderfyniadau am ei iechyd a'i lesiant gan felly wella ei hunanymwybyddiaeth<br>• mwy o gyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau pwysig, gwybodaeth, addysg a chyflogaeth<br>• gwell llesiant, gyda chynnydd mewn hunanhyder, hunan-barch a hunangred<br>• gwell iechyd corfforol, iechyd meddwl a gwydnwch<br>• llai o debygolrwydd y caiff ei gam-drin.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw fuddion rhesymol eraill sy'n gysylltiedig â Chyfranogiad Gweithredol Jack mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'i iechyd a'i lesiant. | | 6 | | 6 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o fuddion Cyfranogiad Gweithredol Jack mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'i iechyd a'i lesiant. Mae'r ymateb yn nodi'n glir amrywiaeth eang o fuddion posibl o ran iechyd a llesiant Jack. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o fuddion ei Gyfranogiad Gweithredol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â iechyd a llesiant Jack. Mae'r ymateb yn nodi o leiaf dri budd posibl o ran iechyd a llesiant Jack. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o fuddiannau Cyfranogiad Gweithredol Jack mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'i iechyd a'i lesiant. Mae'r ymateb yn nodi un budd posibl neu fwy o ran iechyd a llesiant Jack. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. | (ch) | *Mae presenoldeb mewn clinigau dynion/merched iach yn cael ei annog yn gryf er mwyn hybu iechyd a llesiant.*<br><br>*Disgrifiwch un gwasanaeth iechyd ymyrryd yn gynnar/atal arall sydd ar gael ar hyn o bryd i oedolion yng Nghymru.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am nodi gwasanaeth iechyd ymyrryd yn gynnar/atal priodol sydd ar gael ar hyn o bryd i oedolion a hyd at **4 marc** am ddisgrifiad o'r gwasanaeth. (Mae'r grid asesu canlynol yn ymwneud â dyfarnu'r pedwar marc am ddisgrifiad o'r gwasanaeth).<br><br>Gallai'r ymatebion gyfeirio at:<br><br>**Rhaglenni sgrinio**<br>Mae sgrinio yn broses o adnabod unigolion sy'n ymddangos yn iach y gall fod risg gynyddol y byddant yn datblygu clefyd neu gyflwr. Wedyn, gellir cynnig gwybodaeth, profion pellach a thriniaeth briodol iddynt er mwyn lleihau'r risg iddynt a/neu unrhyw gymhlethdodau yn deillio o'r clefyd neu'r cyflwr. Mae rhaglenni sgrinio yn golygu y gellir canfod problemau iechyd posibl yn gynnar a'u trin, e.e. mamogramau, canser ceg y groth/canser y prostad. Mae nhw'n cael eu cynnig yn ystod camau bywyd gwahanol.<br><br>**Gofal cyn-geni**<br>Math o ofal iechyd ataliol yw gofal cyn geni, sy'n anelu at ddarparu archwiliadau rheolaidd sy'n rhoi cyfle i feddygon neu fydwragedd drin ac atal problemau iechyd posibl drwy gydol y beichiogrwydd, gan hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ar yr un pryd er mwyn sicrhau bod y fam a'r baban mor iach â phosibl. Bydd y fydwraig neu'r meddyg sy'n darparu gofal cyn geni yn gwneud y canlynol:<br>• archwilio iechyd y fam a'r baban<br>• rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer beichiogrwydd iach (gan gynnwys cyngor am fwyta'n iach ac ymarfer corff)<br>• trafod opsiynau a dewisiadau ar gyfer gofal yn ystod beichiogrwydd, esgor a geni<br>• ateb unrhyw gwestiynau.<br><br>Mae gofal cyn geni hefyd yn cynnwys y canlynol:<br>• dau sgan uwchsain yn ystod beichiogrwydd – rhwng 8 a 14 wythnos, a rhwng 18 a 21 wythnos<br>• profion sgrinio cyn geni er mwyn canfod y tebygolrwydd y bydd gan eich baban rai cyflyrau penodol, fel Syndrom Down<br>• profion gwaed er mwyn canfod achosion o siffilis, HIV a hepatitis B<br>• profion sgrinio ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia.<br><br>**Gofal ôl-enedigol**<br>Hyd at 8 wythnos ar ôl geni'r baban. Mae gofal ôl-enedigol yn cynnwys gofalu am iechyd y fam yn ogystal ag iechyd y baban. Rhoddir cyngor a chymorth llaethu, bwydo ar y fron a bwydo â photel, deiet a maeth ar gyfer y fam, gorffwys, dulliau atal cenhedlu a llesiant emosiynol. | 5 | | | 5 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynllunio teulu –** er mwyn rhoi gwybodaeth a chymorth mewn perthynas ag iechyd rhywiol, rhyw a pherthnasoedd, cynnig dulliau atal cenhedlu er mwyn atal beichiogrwydd digroeso ac achosion o ledaenu clefydau a drosglwyddir yn rhywiol.<br><br>**Clinigau iechyd rhywiol –** mae'r rhain yn darparu:<br>• gwasanaeth profi a thrin ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol *(STI)*<br>• cyngor a gwybodaeth am iechyd rhywiol<br>• condomau am ddim<br>• dulliau atal cenhedlu – gan gynnwys dulliau atal cenhedlu brys, fel y bilsen bore wedyn<br>• profion beichiogrwydd<br>• profion HIV – gan gynnwys profion cyflym sy'n cynnig canlyniadau o fewn tua 30 munud a gwasanaeth cwnsela i bobl sy'n cael prawf HIV positif<br>• meddyginiaeth a all helpu i atal pobl rhag datblygu HIV os byddant wedi dod i gysylltiad ag ef<br>• brechiadau hepatitis B<br>• cyngor am erthylu<br>• help i bobl sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol<br>• os bydd angen, atgyfeiriad at arbenigwr. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **4** | **4 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r gwasanaeth iechyd ymyrryd yn gynnar/atal a nodwyd sydd ar gael ar hyn o bryd i oedolion yng Nghymru. Mae'r ymateb yn disgrifio prif nodau a nodweddion y gwasanaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaeth iechyd ymyrryd yn gynnar/atal a nodwyd sydd ar gael ar hyn o bryd i oedolion yng Nghymru. Mae'r ymateb yn disgrifio prif nodau a nodweddion y gwasanaeth. |
| **2** | **2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaeth iechyd ymyrryd yn gynnar/atal a nodwyd sydd ar gael ar hyn o bryd i oedolion yng Nghymru. Mae'r ymateb yn disgrifio rhai o brif nodau a nodweddion y gwasanaeth yn gyffredinol. |
| **1** | **1 marc**<br>Disgrifiad cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o'r gwasanaeth iechyd ymyrryd yn gynnar/atal a nodwyd sydd ar gael ar hyn o bryd i oedolion yng Nghymru. Mae'r ymateb yn nodi o leiaf un o nodau neu nodweddion y gwasanaeth. |
| | **Dyfarnwch 0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. | (a) | *Mae Sarah yn mynychu prifysgol mewn dinas fawr. Mae'n 19 oed ac yn byw oddi cartref mewn fflat bach sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n wael mewn ardal breswyl ddifreintiedig.*<br><br>*Er mwyn ategu ei grant myfyrwyr, mae Sarah yn gweithio mewn bwyty lleol y rhan fwyaf o nosweithiau felly nid oes ganddi lawer o amser i gymdeithasu â ffrindiau, nac i wneud ymarfer corff, yr oedd yn arfer ei fwynhau. Mae hefyd yn ei chael hi'n anodd cwblhau ei hastudiaethau a bodloni terfynau amser o ran ei gwaith cwrs.*<br><br>*Dadansoddwch sut gallai ffordd o fyw Sarah effeithio ar ei llesiant emosiynol.*<br><br>Gall ymatebion gyfeirio at y ffaith bod gan Sarah 'lesiant emosiynol negyddol' oherwydd ei hamgylchiadau. Er enghraifft:<br><br>• Gallai Sarah deimlo ei bod yn methu gan ei bod ar ei hôl hi â'i hastudiaethau a'i bod yn ei chael hi'n anodd bodloni'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith<br>• Gallai deimlo na all reoli ei chydbwysedd bywyd/gwaith gan ei bod naill ai'n astudio neu'n gweithio yn y bwyty<br>• Nid yw'n gallu rheoli ei harian na fforddio byw mewn llety gwell a/neu gymdeithasu â'i ffrindiau felly bydd yn teimlo'n unig.<br><br>Gall ymatebion gyfeirio at y ffaith bod gan Sarah 'lesiant emosiynol cadarnhaol' oherwydd ei hamgylchiadau. Er enghraifft:<br><br>• Gall Sarah deimlo ei bod yn ymdopi ag amgylchiadau anodd iawn yn llwyddiannus heb gymorth allanol.<br>• Gall deimlo'n falch o'r hyn mae'n ei gyflawni o ran ei haddysg.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw ffordd resymol y gallai ffordd o fyw Sarah effeithio ar ei llesiant emosiynol, boed mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol. | 2 | | 3 | 5 |

| Band | AA1 | AA3 |
| --- | --- | --- |
| 3 | Nid oes unrhyw farciau Band 3 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Dyfernir 2 farc fel ar gyfer Band 2. | **3 marc**<br>Dadansoddiad da iawn gan gynnwys barnau rhesymegol am sut gallai ffordd o fyw Sarah effeithio ar ei llesiant emosiynol. Mae'r ymateb yn nodi'n glir amrywiaeth eang o effeithiau posibl ar lesiant emosiynol Sarah. |
| 2 | **2 farc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau a allai effeithio ar lesiant emosiynol Sarah. | **2 farc**<br>Dadansoddiad da gan gynnwys rhai barnau am sut gallai ffordd o fyw Sarah effeithio ar ei llesiant emosiynol. Mae'r ymateb yn nodi o leiaf ddwy effaith bosibl ar lesiant emosiynol Sarah. |
| 1 | **1 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o un ffactor neu fwy a allai effeithio ar lesiant emosiynol Sarah. | **1 marc**<br>Ymateb sylfaenol nad yw'n dangos llawer o dystiolaeth o farnau am sut gallai ffordd o fyw Sarah effeithio ar ei llesiant emosiynol. Mae'r ymateb yn cynnwys o leiaf un effaith bosibl ar lesiant emosiynol Sarah. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Amlinellwch y broses 'ymwybyddiaeth ofalgar' (mindfulness) ac esboniwch yn gryno sut gallai helpu Sarah.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **3 marc** am amlinelliad o ymwybyddiaeth ofalgar a hyd at **2 farc** am esboniad cryno o sut gallai helpu Sarah.<br><br>Gallai'r ymatebion gyfeirio at:<br><br>**Nodweddion ymwybyddiaeth ofalgar:**<br>• dull gweithredu integreiddiol sy'n seiliedig ar y meddwl a'r corff<br>• mae'n rhoi mwy o sylw i'r<br>  • presennol<br>  • i deimladau a meddyliau'r unigolyn a'r byd o'i amgylch.<br><br>**Sut gallai helpu Sarah:**<br>• Bydd ymwybyddiaeth ofalgar yn helpu Sarah i reoli ei meddyliau, ei theimladau a'i hiechyd meddwl<br>• Bydd yn helpu Sarah i ymdopi â straen a phryder o ganlyniad i'w hamgylchiadau. | 3 | 2 | | 5 |

| Band | AA1 | AA2 |
|---|---|---|
| 3 | **3 marc**<br>Amlinelliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o nodweddion 'ymwybyddiaeth ofalgar'. | Nid oes unrhyw farciau Band 3 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Dyfernir 2 farc fel ar gyfer Band 2. |
| 2 | **2 farc**<br>Amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o brif nodweddion 'ymwybyddiaeth ofalgar'. | **2 farc**<br>Esboniad da o sut gallai ymwybyddiaeth ofalgar helpu agweddau penodol ar iechyd a llesiant Sarah. |
| 1 | **1 marc**<br>Amlinelliad sylfaenol nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o 'ymwybyddiaeth ofalgar'. | **1 marc**<br>Esboniad sylfaenol o sut gallai ymwybyddiaeth ofalgar helpu un agwedd ar iechyd a llesiant Sarah. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. | (c) | Aseswch y ffyrdd y gallai tai o ansawdd gwael ac incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah.[10]<br><br>Dyfarnwch hyd at **5 marc** am dystiolaeth o ddealltwriaeth o sut gallai tai o ansawdd gwael ac incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah a hyd at **5 marc** am asesu hyn a dod i gasgliadau rhesymegol.<br><br>Gall yr ymatebion gyfeirio at agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol ar iechyd a llesiant Sarah, er enghraifft:<br><br>**<u>Tai o ansawdd gwael</u>**<br><br>**Corfforol** – Mae'n bosibl bod fflat Sarah yn llaith ac yn oer a all arwain at achosion o salwch anadlol neu broblemau cysgu.<br><br>**Deallusol** – Gall yr amodau amhleserus ei gwneud hi'n anodd i Sarah gwblhau ei gwaith cwrs yn ei fflat.<br><br>**Emosiynol** – Gallai Sarah deimlo cywilydd am ansawdd gwael ei fflat, a gallai hyn arwain at straen.<br><br>**Cymdeithasol** – Mae'n bosibl na fydd Sarah am wahodd ffrindiau i ymweld â hi oherwydd cyflwr ei fflat, ac y daw i deimlo'n unig.<br><br>**<u>Incwm isel</u>**<br><br>**Corfforol** – Gall fod gan Sarah ddeiet gwael, gan arwain at imiwnedd is a salwch. Gall Sarah fod o dan bwysau oherwydd diffyg bwyd neu dros bwysau gan ei bod yn bwyta bwydydd sy'n ei llenwi. Mae'n bosibl nad yw'n cysgu'n dda oherwydd pryderon ariannol.<br><br>**Deallusol** – Mae'n bosibl na fydd Sarah yn gallu prynu llyfrau neu offer i'w helpu i astudio. Efallai na fydd yn gallu treulio digon o amser yn astudio gan fod yn rhaid iddi weithio cymaint yn y bwyty.<br><br>**Emosiynol** – Gall Sarah deimlo'n drist, a mynd i'w chragen gan na all fforddio dillad a phethau ymolchi neis.<br><br>**Cymdeithasol** – Efallai na fydd gan Sarah ddigon o arian i allu mynd allan a chymdeithasu â ffrindiau cymaint ag yr hoffai wneud, ac y daw i deimlo'n unig.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw ffordd resymol gallai tai o ansawdd gwael ac incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah. | | 5 | 5 | 10 |

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **3** | **5 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos tystiolaeth glir o ddealltwriaeth o amrywiaeth o ffyrdd gallai tai o ansawdd gwael ac incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah. | **5 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n asesu ac yn dod i gasgliadau rhesymegol o ran sut gallai tai o ansawdd gwael ac incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah.<br><br>Mae'r ymateb wedi'i fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth o rai ffyrdd gallai tai o ansawdd gwael ac incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah. | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n asesu ac yn dod i rai casgliadau o ran sut gallai tai o ansawdd gwael ac incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah.<br><br>Mae'r ymateb wedi'i fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ar y cyfan gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu gweddol gywir. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol nad yw'n dangos llawer o dystiolaeth o ddealltwriaeth o ran sut gallai tai o ansawdd gwael a/neu incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah. | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol gyda rhywfaint o ymdrech i asesu sut gallai tai o ansawdd gwael a/neu incwm isel effeithio ar iechyd a llesiant Sarah.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o strwythur ond mae rhai gwallau o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

**Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu**

**Uned 1**

| **Cwestiwn** | | | **Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)** | | | | | **Dyraniad marciau** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran | | | | Rhan | Cyfanswm Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | | 2.1.1 | 2.1.2 | 2.1.3 | 2.1.4 | | | | | |
| **1** | (a) | | 1 | | | | (a) | **1** | 1 | | |
| | (b) | | 2 | | | | (b) | **2** | 2 | | |
| **2** | (a) | | 1 | | | | (c) | **1** | | 1 | |
| | (b) | | 1 | | | | (c) | **1** | | 1 | |
| | (c) | | 1 | | | | (c) | **1** | | 1 | |
| **3** | (a) | | 1 | | | | (c) | **1** | 1 | | |
| | (b) | | 1 | | | | (c) | **1** | 1 | | |
| | (c) | | 1 | | | | (c) | **1** | 1 | | |
| **4** | (a) | (i) | 1 | | | | (a) | **1** | 1 | | |
| | | (ii) | | 4 | | | (a) | **4** | | 4 | |
| | (b) | (i) | 1 | | | | (a) | **1** | 1 | | |
| | | (ii) | 4 | | | | (ch) | **4** | | 4 | |
| **5** | (a) | (i) | | | | 1 | (a) | **1** | 1 | | |
| | | (ii) | | | | 1 | (a) | **1** | 1 | | |
| | (b) | (i) | | | | 1 | (a) | **1** | 1 | | |
| | | (ii) | | | | 1 | (a) | **1** | 1 | | |
| | (c) | | | | | 4 | (a) | **4** | | | 4 |
| **6** | (a) | (i) | | | | 2 | (a) | **2** | 2 | | |
| | | (ii) | | | | 3 | (a) | **3** | | 3 | |
| | (b) | | 3 | | | | (ch) | **3** | | 3 | |
| | (c) | (i) | | | | 1 | (b) | **1** | 1 | | |
| | | (ii) | | | | 4 | (b) | **4** | | | 4 |
| | | (iii) | | | | 4 | (b) | **4** | | | 4 |
| **7** | (a) | | | | | 3 | (a) | **3** | 3 | | |
| | (b) | | | | 2 | | (a) | **2** | 2 | | |
| | (c) | | | | 6 | | (b) | **6** | | 6 | |
| | (ch) | | | | | 5 | (a) | **5** | 5 | | |
| **8** | (a) | | | 5 | | | (a) | **5** | 2 | | 3 |
| | (b) | | | 5 | | | (b) | **5** | 3 | 2 | |
| | (c) | | 10 | | | | (ch) | **10** | | 5 | 5 |
| Cyfanswm marciau | | | **28** | **14** | **8** | **30** | | **80** | **30** | **30** | **20** |

| **Enw'r Ymgeisydd** | **Rhif y Ganolfan** | | | | | **Rhif yr Ymgeisydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |

**TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**UNED 3**

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT YN YR 21ain GANRIF**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 30 munud**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch BOB cwestiwn.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Peidiwch â defnyddio pensil na phen gel.

Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi’i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Cewch eich cynghori i rannu eich amser yn unol â hynny.

Mae cyfanswm o 80 marc ar gael.

Cofiwch fod angen i chi ysgrifennu eich atebion mewn Cymraeg da a'u cyflwyno'n drefnus. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnydd priodol o atalnodi a gramadeg, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 8(c).

*Atebwch **bob** cwestiwn.*

1. Ticiwch y blychau i ddangos p'un a yw pob gosodiad isod yn gywir neu'n anghywir. [3]

| **Gosodiad** | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| (i) Un o egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus yw gofalu am y rheini â'r angen mwyaf yn gyntaf. | | |
| (ii) Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy. | | |
| (iii) Dim ond i blant y mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gymwys. | | |

2. Dylai unigolion sy'n derbyn gofal gael eu trin yn deg bob amser. Mae hyn yn cael ei ategu gan y Ddeddf Hawliau Dynol.

(a) Mae *'FREDA'* yn helpu i adnabod y meysydd mae'r Ddeddf yn ymdrin â nhw. Nodwch isod ystyr y llythyren 'R' a 'D' yn Saesneg. [2]

F - *fairness*

R ……..……………………………………..

E - *equality*

D ……………………………………………

A – *autonomy*

(b) Nodwch **un** darn arall o ddeddfwriaeth sy'n ategu cydraddoldeb. [1]

………………………………………………………………………………………………

3. Mae sawl rhaglen maeth a gweithgarwch wedi'i chynllunio i ategu iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru.

Nodwch **un** rhaglen maeth neu weithgarwch, ac amlinellwch ei phrif bwrpas.

(i) Enw'r rhaglen:

…..……..………………………………… [1]

(ii) Prif bwrpas y rhaglen: [3]

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

4. Mae Anthony yn gweithio mewn meithrinfa ddydd yn gofalu am blant ifanc pan fydd eu rhieni yn y gwaith.

Rhan hanfodol o'i rôl yw diogelu'r plant.

(a) Esboniwch pam bod diogelu *(safeguarding)* yn hanfodol wrth ofalu am blant ifanc. [4]

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

(b) Nodwch **ddau** fath o gam-drin gall plant fod yn agored iddo. [2]

(i) ………………………………………………………………………………

(ii) ………………………………………………………………………………

(c) Mae datganiad o fewn cod ymarfer ysgol gynradd yn nodi'r canlynol: 'Rhaid cynnig cyfleoedd cyfartal i blant.'

Esboniwch ystyr y datganiad hwn, gan roi enghreifftiau i egluro eich ateb. [6]

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

5. Mae ymarfer gwrthwahaniaethol yn anelu at hyrwyddo hawliau unigolion â gwahaniaethau diwylliannol a chrefyddol.

(a) Disgrifiwch ystyr gwahaniaethu (*discrimination)*. [2]

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

(b) Mae Ahmed wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

(i) Pan oedd Ahmed yn yr ysbyty, cafodd trefniadau eu gwneud i ddarparu deiet priodol iddo ar gyfer ei grefydd.
Esboniwch sut roedd hyn yn hyrwyddo amrywiaeth. [2]

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

(ii) Gan nad yw Ahmed yn siarad llawer o Saesneg, cafodd cyfieithydd ei ddarparu ar ei gyfer yn ystod cyfarfod gyda'i feddyg.
Esboniwch sut roedd hyn yn hyrwyddo cynhwysiant. [2]

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

(c) Ar wahân i unigolion â gwahaniaethau diwylliannol, nodwch **ddau** grŵp mae ymarferion gwrthwahaniaethol yn anelu at eu cefnogi a'u hamddiffyn. [2]

(i) ..............................................................................................

(ii) ..............................................................................................

6. Mae Mari ac Islwyn yn eu 80au ac wedi byw yn yr un tŷ ers iddyn nhw briodi. Nid yw Mari yn iach ac mae Islwyn yn methu ag ymdopi ac ni all ofalu amdani ar ei ben ei hun. Cymraeg yw mamiaith y ddau ohonyn nhw.

   Newidiodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y ffordd mae anghenion unigolyn yn cael eu hasesu a'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi.

   (a) Esboniwch sut bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn helpu Mari ac Islwyn i aros yn eu cartref. [4]

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   (b) Un o egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw atal ac ymyrryd yn gynnar.

   Trafodwch sut gallai ymyrryd yn gynnar ac atal effeithio ar iechyd a llesiant Islwyn. [6]

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

   ……………………………………………………………………………………………..

(c) Fel siaradwyr Cymraeg, dylai Mari ac Islwyn dderbyn 'Cynnig Rhagweithiol'.

(i) Diffiniwch ystyr 'Cynnig Rhagweithiol'. [2]

.............................................................................................

.............................................................................................

.............................................................................................

.............................................................................................

(ii) Esboniwch yn gryno sut mae hyn yn adlewyrchu gwerthoedd craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. [2]

.............................................................................................

.............................................................................................

.............................................................................................

.............................................................................................

(ch) Esboniwch sut mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn helpu i ddiogelu Mari ac Islwyn. [3]

.............................................................................................

.............................................................................................

.............................................................................................

.............................................................................................

.............................................................................................

.............................................................................................

7. Mae llawer o faterion sy'n effeithio ar iechyd a llesiant pobl yng Nghymru.

(a) Nodwch ystyr y canlynol:

(i) tlodi bwyd [2]

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

(ii) gordewdra [2]

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

(b) Mae Rhaglen Mesur Plant Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu gwybodaeth am bwysau a thaldra plant.

Esboniwch yn gryno pam bod y wybodaeth hon yn bwysig i'r GIG yng Nghymru. [2]


..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

(c) Mae'r diagram isod yn dangos canran y plant 4 a 5 oed yng Nghymru sydd o dan bwysau, o bwysau iach, dros bwysau neu'n ordew, rhwng 2012 a 2017.




Edrychwch ar y diagram uchod ac, ym **mhob un** o'r tablau isod, ticiwch **un** blwch i ddangos yr ateb cywir.

(i) [1]

| | Ticiwch yr ateb cywir |
|---|---|
| Rhwng 2012 a 2017, mae canran y plant o bwysau iach wedi aros yr un peth | |
| Rhwng 2012 a 2017, mae canran y plant o bwysau iach wedi lleihau | |
| Rhwng 2012 a 2017, mae canran y plant o bwysau iach wedi cynyddu | |

(ii) [1]

| | Ticiwch yr ateb cywir |
|---|---|
| Rhwng 2014 a 2017, mae canran y plant sydd dros bwysau wedi aros yr un peth | |
| Rhwng 2014 a 2017, mae canran y plant sydd dros bwysau wedi lleihau | |
| Rhwng 2014 a 2017, mae canran y plant sydd dros bwysau wedi cynyddu | |

(ch) Mae'r diagram yn dangos bod tua 1 o bob 4 plentyn 4 a 5 oed yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o fod dros bwysau pan fyddan nhw'n oedolion.

Trafodwch effaith bod dros bwysau ar iechyd a llesiant plentyn drwy gydol ei gylch oes. [6]

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

8. Mae'n bwysig sicrhau bod gennym system iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant gynaliadwy yng Nghymru. Un ffordd mae Llywodraeth Cymru yn anelu at gyflawni hyn yw drwy annog ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd.

(a) Un o nodweddion ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd yw y dylai unigolion dderbyn cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain.

Disgrifiwch **un** nodwedd arall sy'n gysylltiedig ag ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd. [3]

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

(b) Mae'n cael ei amcangyfrif y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn cynyddu 36.6% rhwng 2016 a 2041.

[Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017]

Dadansoddwch sut mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o ddylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. [6]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

(c) Mae'n bwysig i unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain.

Aseswch sut mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. [10]

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................
..........................................................................................................

# CYNLLUN MARCIO

## Canllawiau i arholwyr

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael dim marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Mae *Cynnwys 'Dylid rhoi credyd am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi credyd yn ôl cywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Adlewyrchir terminoleg briodol yn yr ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir dyfarnu marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau sy'n cael eu marcio drwy fandiau mae cynlluniau marcio mewn dwy ran, y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodir uchod, ni fwriedir i'r cynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac nid oes yn rhaid i ymgeiswyr gynnwys yr holl gynnwys dangosol er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Mewn TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Caiff ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau eu hasesu yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredin ar gyfer y cwestiwn.

Dylid bob amser farcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau marciau drwy roi marciau yn hytrach na'u tynnu. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, y caiff marciau eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: ni chânt eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth a gaiff ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso’r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i’r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band hyd nes y bydd y disgrifyddion yn cyfateb i’r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull ‘ffit orau’ er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai’r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai’r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i’r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd arholwyr yn derbyn enghreifftiau o atebion ym mhob band y mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai’r arholwyr farcio enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau’r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn er mwyn penderfynu p'un a yw ateb ymgeisydd o safon uwch, is neu debyg i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr o'r angen i gyfeirio yn ôl at yr ateb wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a roddwyd yn briodol i'r ateb a gyflwynwyd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | | *Ticiwch y blychau i ddangos p'un a yw pob gosodiad isod yn gywir neu'n anghywir.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am bob ateb cywir.<br>(i) Cywir<br>(ii) Cywir<br>(iii) Anghywir | 3 | | | 3 |
| 2. | (a) | *Dylai unigolion sy'n derbyn gofal gael eu trin yn deg bob amser. Mae hyn yn cael ei ategu gan y Ddeddf Hawliau Dynol.*<br><br>*Mae 'FREDA' yn helpu i adnabod y meysydd mae'r Ddeddf yn ymdrin â nhw.*<br>*Nodwch isod ystyr y llythyren 'R' a 'D' yn Saesneg.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am bob ateb cywir.<br>*R = respect*<br>*D = dignity* | 2 | | | 2 |
| | (b) | *Nodwch un darn arall o ddeddfwriaeth sy'n ategu cydraddoldeb.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am nodi deddfwriaeth cydraddoldeb yn gywir.<br>Unrhyw un o blith y canlynol (nid oes angen dyddiad):<br>• Deddf Cydraddoldeb 2010<br>• Deddf Hawliau Dynol 1998<br>• Deddf Galluedd Meddyliol 2005 | 1 | | | 1 |
| 3. | | *Mae sawl rhaglen maeth a gweithgarwch wedi'i chynllunio i ategu iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru.*<br><br>*Nodwch un rhaglen maeth neu weithgarwch, ac amlinellwch ei phrif bwrpas.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am nodi rhaglen maeth neu weithgarwch yn gywir, fel:<br><br>• Rhaglen Cychwyn Iach<br>• Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru<br>• Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd<br>• Aml Sgiliau a Champau'r Ddraig<br>• Rhaglen y Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol<br>• Rhaglen Gwella Bwyd mewn Ysbytai<br>• Newid am Oes Cymru<br>• 5x60. | 1 | | | 1 |

<table>
<tr><th colspan="2">Cwestiwn</th><th>Ateb</th><th>AA1</th><th>AA2</th><th>AA3</th><th>Cyfanswm Marciau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Dyfarnwch uchafswm o 3 marc am amlinelliad o brif bwrpas y rhaglen a nodwyd yn rhan (i). Bydd yr ymatebion yn dibynnu ar y rhaglen a nodwyd, ond gallant gynnwys y canlynol:<br><br>Rhaglen Cychwyn Iach<br>• mae'n darparu talebau am ddim i'w gwario ar fwyd<br>• dim ond bwyd iach (a llaeth) y gellir ei brynu â'r talebau<br>• mae'n gymwys i blant o dan 4 oed/merched beichiog.<br><br>Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru<br>• mae'n helpu ysgolion i hybu iechyd<br>• rhaid i ysgolion gyflwyno testunau gwella iechyd<br>• ehangwyd y rhaglen i leoliadau cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy, a lleoliadau AU/AB.<br><br>Menter Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd<br>• mae'n cynnig brecwast iach am ddim i blant ysgol gynradd bob dydd<br>• er mwyn helpu i wella eu hiechyd a'u gallu i ganolbwyntio<br>• er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd sy'n seiliedig ar ddeiet gwael.<br><br>Aml Sgiliau a Champau'r Ddraig<br>• mae'n gymwys i ysgolion a chlybiau cymunedol<br>• y weledigaeth yw 'sicrhau bod pob plentyn yn gwirioni ar chwaraeon am oes' / 'cael mwy o bobl yn fwy egnïol yn fwy aml'<br>• ffocws ar ddysgu sy'n canolbwyntio ar y plentyn.<br><br>Rhaglen y Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol<br>• mae'n gweithredu o ysgolion/canolfannau cymunedol/neuaddau eglwysi/gweithleoedd<br>• mae'n helpu pobl i fwyta'n iachach/prynu ffrwythau a llysiau ffres<br>• mae'n arbed arian i bobl.<br><br>Rhaglen Gwella Bwyd mewn Ysbytai<br>• mae'n rhaid i ysbytai gyrraedd safonau bwyd<br>• rhoddir cynlluniau bwyd personol i gleifion<br>• mae deiet iach yn cael ei hybu i staff ac ymwelwyr.<br><br>Newid am Oes Cymru<br>• mae'n annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw<br>• mae'n rhoi cyngor a chymorth ymarferol<br>• mae teuluoedd yn cwblhau holiadur yna'n cael cynlluniau gweithredu personol.<br><br>5x60<br>• mae'n anelu at annog disgyblion ysgol uwchradd i fod yn fwy egnïol<br>• y targed yw gwneud 60 munud o ymarfer corff o leiaf bump gwaith yr wythnos<br>• mae'r gweithgareddau yn cael eu cynnal yn ystod amser cinio neu ar ôl ysgol.</td><td>3</td><td></td><td></td><td>3</td></tr>
</table>

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Amlinelliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ac sy'n nodi o leiaf dair nodwedd o'r rhaglen a nodwyd. |
| **2** | **2 farc**<br>Amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ac sy'n nodi o leiaf ddwy nodwedd o'r rhaglen a nodwyd. |
| **1** | **1 marc**<br>Amlinelliad sylfaenol nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth ac sy'n nodi un nodwedd o'r rhaglen a nodwyd. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | (a) | *Mae Anthony yn gweithio mewn meithrinfa ddydd yn gofalu am blant ifanc pan fydd eu rhieni yn y gwaith.*<br><br>*Rhan hanfodol o'i rôl yw diogelu'r plant.*<br><br>*Esboniwch pam bod diogelu (safeguarding) yn hanfodol wrth ofalu am blant ifanc.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **4 marc** am esboniad o pam bod diogelu yn hanfodol wrth ofalu am blant ifanc, er enghraifft, er mwyn gwneud y canlynol:<br>• amddiffyn plant rhag niwed neu rhag cael eu cam-drin<br>• sicrhau y bodlonir hawliau plant<br>• hyrwyddo a chynnal diogelwch plant<br>• hyrwyddo a chynnal diogelwch gweithwyr gofal<br>• datblygu a chynnal llinellau cyswllt da<br>• helpu i sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth<br>• sicrhau gweithdrefnau fetio priodol wrth recriwtio gweithwyr newydd.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw esboniad rhesymol arall pam bod diogelu yn hanfodol wrth ofalu am blant ifanc. | | 4 | | 4 |

| **Band** | **AA2** |
|---|---|
| **4** | **4 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl pam bod diogelu yn hanfodol wrth ofalu am blant ifanc. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad clir rhwng diogelu a gofalu am blant ifanc. |
| **3** | **3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth pam bod diogelu yn hanfodol wrth ofalu am blant ifanc. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad rhwng diogelu a gofalu am blant ifanc. |
| **2** | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth pam bod diogelu yn hanfodol wrth ofalu am blant ifanc. Mae'n bosibl nad yw'r ymateb yn creu cysylltiad llawn rhwng diogelu a gofalu am blant ifanc. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth a dealltwriaeth pam bod diogelu yn hanfodol wrth ofalu am blant ifanc. Nid yw'r ymateb yn creu cysylltiad penodol rhwng diogelu a gofalu am blant ifanc. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm Marciau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Nodwch **ddau** fath o gam-drin y gall plant fod yn agored iddo.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am bob ymateb cywir.<br><br>Unrhyw ddau o blith:<br>• Emosiynol<br>• Corfforol<br>• Rhywiol<br>• Seicolegol<br>• Esgeulustod. | 2 | | | 2 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | (c) | Mae datganiad o fewn cod ymarfer ysgol gynradd yn nodi'r canlynol: 'Rhaid cynnig cyfleoedd cyfartal i blant.'<br><br>Esboniwch ystyr y datganiad hwn, gan roi enghreifftiau i egluro eich ateb.<br><br>Dyfarnwch hyd at **6 marc** am esboniad manwl.<br>Gall yr ymateb gynnwys:<br>• creu diwylliant cynhwysol i bob plentyn<br>• trin plant yn deg, peidio â thrin plant yr un peth<br>• rhoi cyfleoedd cyfartal iddyn nhw gyflawni'r un canlyniadau<br>• rhoi cymorth i blant neu eu galluogi i gyflawni'r un peth ag eraill<br>• sicrhau nad oes unrhyw ymarferion gwahaniaethol yn yr ysgol<br>• galluogi pob plentyn i gymryd rhan lawn mewn gweithgareddau<br>• helpu pob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn<br>• sicrhau bod adnoddau yn hygyrch i bawb<br>• chwalu rhwystrau sy'n creu gwahaniad.<br>Enghreifftiau<br>• bydd angen mwy o help ar rai plant i gyflawni'r un pethau, e.e. help i dorri, cerdded, bwydo eu hunain, mynd i'r toiled neu unrhyw enghraifft addas arall<br>• gall fod angen gwell mynediad/cyfleusterau ar blant anabl er mwyn gallu gwneud yr un peth â phlant eraill<br>• gall fod angen i blant â nam ar eu golwg eistedd yn agosach i'r blaen.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw bwynt a/neu enghraifft ddilys arall a ddefnyddir i esbonio ystyr y datganiad. | | 6 | | 6 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ystyr '*Rhaid cynnig cyfleoedd cyfartal i blant*'. Mae'r ymateb yn esbonio'r datganiad yn drylwyr ac yn cynnwys enghreifftiau perthnasol er mwyn egluro'r pwyntiau a wnaed yn glir. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ystyr '*Rhaid cynnig cyfleoedd cyfartal i blant*'. Mae'r ymateb yn esbonio'r datganiad yn glir ac yn cynnwys enghreifftiau er mwyn egluro'r pwyntiau a wnaed yn glir. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ystyr '*Rhaid cynnig cyfleoedd cyfartal i blant*'. Mae'r ymateb yn esbonio'r datganiad gan gyfeirio at enghreifftiau, er nad ydynt o reidrwydd bob amser wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r pwyntiau a wnaed. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (a) | *Mae ymarfer gwrthwahaniaethol yn anelu at hyrwyddo hawliau unigolion â gwahaniaethau diwylliannol a chrefyddol.*<br><br>*Disgrifiwch ystyr gwahaniaethu (discrimination).*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am ymateb sylfaenol a **2 farc** am ddisgrifiad da o wahaniaethu.<br><br>Mae'r atebion posibl yn cynnwys:<br><br>• Ystyr gwahaniaethu yw trin unigolyn yn llai teg neu'n llai ffafriol nag unigolion eraill. [1 marc]<br><br>• Ystyr gwahaniaethu yw trin unigolyn yn llai teg neu'n llai ffafriol nag unigolion eraill, oherwydd un o'i nodweddion. [2 farc]<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw ddisgrifiad dilys arall o wahaniaethu. | 2 | | | 2 |
| | (b) | *Mae Ahmed wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.*<br><br>*(i) Pan oedd Ahmed yn yr ysbyty, cafodd trefniadau eu gwneud i ddarparu deiet priodol iddo ar gyfer ei grefydd. Esboniwch sut roedd hyn yn hyrwyddo amrywiaeth.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am ymateb sylfaenol a **2 farc** am esboniad da o sut roedd darparu deiet priodol i Ahmed yn hyrwyddo amrywiaeth.<br><br>Mae'r atebion posibl yn cynnwys:<br><br>• Roedd hyn yn hyrwyddo amrywiaeth gan fod anghenion bwyd Ahmed yn wahanol i'r cleifion eraill. [1 marc]<br><br>• Roedd hyn yn hyrwyddo amrywiaeth gan fod yr ysbyty yn derbyn ac yn parchu credoau crefyddol Ahmed. [2 farc] | | 2 | | 2 |
| | | *(ii) Gan nad yw Ahmed yn siarad llawer o Saesneg, cafodd cyfieithydd ei ddarparu ar ei gyfer yn ystod cyfarfod gyda'i feddyg. Esboniwch sut roedd hyn yn hyrwyddo cynhwysiant.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am ymateb sylfaenol a **2 farc** am esboniad da o sut roedd darparu cyfieithydd i Ahmed yn hyrwyddo cynhwysiant.<br><br>Mae'r atebion posibl yn cynnwys:<br><br>• Roedd hyn yn hyrwyddo cynhwysiant gan na allai Ahmed ddeall yr hyn yr oedd ei feddyg yn ei ddweud heb gyfieithydd. [1 marc]<br><br>• Roedd hyn yn hyrwyddo cynhwysiant gan fod Ahmed yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'i feddyg ac yn cael ei gynnwys yn ei ofal/triniaeth. [2 farc] | | 2 | | 2 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Ar wahân i unigolion â gwahaniaethau diwylliannol, nodwch **ddau** grŵp mae ymarferion gwrthwahaniaethol yn anelu at eu cefnogi a'u hamddiffyn.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** yr un am nodi grŵp y mae arferion gwrthwahaniaethol yn anelu at eu cefnogi a'u hamddiffyn.<br><br>Dylai'r ymatebion nodi grwpiau y gellir eu nodi yn ôl y nodweddion canlynol:<br>• oedran<br>• anabledd<br>• ailbennu rhywedd<br>• priodas a phartneriaeth sifil<br>• beichiogrwydd a mamolaeth<br>• hil<br>• rhyw<br>• cyfeiriadedd rhywiol. | 2 | | | 2 |
| 6. | (a) | *Mae Mari ac Islwyn yn eu 80au ac wedi byw yn yr un tŷ ers iddyn nhw briodi. Nid yw Mari yn iach ac mae Islwyn yn methu ag ymdopi ac ni all ofalu amdani ar ei ben ei hun. Cymraeg yw mamiaith y ddau ohonyn nhw.*<br><br>*Newidiodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y ffordd mae anghenion unigolyn yn cael eu hasesu a'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi.*<br><br>*Esboniwch sut bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn helpu Mari ac Islwyn i aros yn eu cartref.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **4 marc** am esboniad manwl o sut bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn helpu Mari ac Islwyn i aros yn eu cartref.<br>Gall ymatebion gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:<br>• rhoddir y cymorth sydd ei angen i Islwyn a Mari er mwyn eu galluogi i barhau i fyw yn eu cartref<br>• mae Islwyn a Mari yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio i fodloni eu hanghenion gofal a chymorth<br>• cynhelir trafodaethau ag Islwyn a Mari am y cymorth sydd ganddynt eisoes ac er mwyn adnabod y meysydd lle mae angen help ychwanegol arnynt<br>• mae'r broses asesu wedi'i chynllunio i fod yn syml, felly ni ddylai fod yn rhaid i Islwyn a Mari aros yn hir am y cymorth sydd ei angen arnynt<br>• mae gan ofalwyr yr un hawl i gael eu hasesu am gymorth, sy'n golygu y gellir asesu anghenion Islwyn yn ogystal ag anghenion Mari.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw bwynt neu enghraifft ddilys arall sy'n egluro sut bydd y Ddeddf yn helpu Mari ac Islwyn i aros yn eu cartref. | | 4 | | 4 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **4 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut bydd y Ddeddf yn helpu Islwyn a Mari. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad clir rhwng o leiaf ddwy o egwyddorion allweddol y Ddeddf a sefyllfa Islwyn a Mari, a'r buddion posibl iddynt. |
| 3 | **3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut bydd y Ddeddf yn helpu Islwyn a Mari. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad rhwng o leiaf ddwy o egwyddorion allweddol y Ddeddf a sefyllfa Islwyn a Mari, a'r buddion posibl iddynt. |
| 2 | **2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut bydd y Ddeddf yn helpu Islwyn a Mari. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad rhwng o leiaf un o egwyddorion allweddol y Ddeddf a sefyllfa Islwyn a Mari, a'r budd(ion) posibl iddynt. |
| 1 | **1 marc**<br>Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos llawer o wybodaeth na dealltwriaeth o sut bydd y Ddeddf yn helpu Islwyn a Mari. Nid yw'r ymateb yn creu cysylltiad penodol rhwng egwyddorion allweddol y Ddeddf a sefyllfa Islwyn a Mari, a'r buddion posibl iddynt. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Un o egwyddorion allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw atal ac ymyrryd yn gynnar.*<br><br>*Trafodwch sut gallai ymyrryd yn gynnar ac atal effeithio ar iechyd a llesiant Islwyn.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **6 marc** am drafodaeth glir am sut gallai ymyrryd yn gynnar ac atal effeithio ar iechyd a llesiant Islwyn.<br>Gallai'r ymatebion gyfeirio at:<br>• dylai fod budd i lesiant corfforol a llesiant meddyliol Islwyn oherwydd dylai unrhyw anawsterau mae'n eu cael wrth helpu Mari gael eu nodi a'u lliniaru cyn iddyn nhw effeithio ar ei iechyd<br>• bydd Islwyn mewn sefyllfa well i helpu Mari os yw'n cael yr help sydd ei angen arno ar yr adeg briodol<br>• mae'n bosibl y bydd Islwyn yn teimlo llai o bwysau/pryder am ei sefyllfa ef a Mari, o wybod bod cymorth priodol ar gael i'r ddau ohonyn nhw.<br><br>Gall ymgeiswyr gyfeirio at effeithiau negyddol hefyd, fel:<br>• mae'n bosibl y bydd Islwyn yn teimlo bod cynnwys eraill wrth ofalu am Mari yn lleihau'r lefel o reolaeth sydd ganddo<br>• mae'n bosibl y bydd Islwyn yn teimlo bod cynnwys eraill wrth ofalu am Mari yn golygu ei fod wedi siomi ei wraig. | | | 6 | 6 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Trafodaeth ardderchog gan gynnwys barnau rhesymegol am sut gallai ymyrryd yn gynnar ac atal effeithio ar iechyd a llesiant Islwyn. Mae'r ymateb yn nodi'n glir amrywiaeth o effeithiau posibl ar iechyd a llesiant Islwyn. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Trafodaeth dda gan gynnwys rhai barnau am sut gallai ymyrryd yn gynnar ac atal effeithio ar iechyd a llesiant Islwyn. Mae'r ymateb yn nodi o leiaf ddwy effaith bosibl ar iechyd a llesiant Islwyn. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o dystiolaeth o farnau am sut gallai ymyrryd yn gynnar ac atal effeithio ar iechyd a llesiant Islwyn. Mae'r ymateb yn cynnwys o leiaf un effaith bosibl ar iechyd a llesiant Islwyn. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | (c) | *Fel siaradwyr Cymraeg, dylai Mari ac Islwyn dderbyn 'Cynnig Rhagweithiol'.*<br><br>*(i) Diffiniwch ystyr 'Cynnig Rhagweithiol'.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am ddiffiniad cywir o'r Cynnig Rhagweithiol.<br>Mae'r atebion posibl yn cynnwys:<br>• Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu bod staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i unigolion. [1 marc]<br>• Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu bod staff yn cynnig gwasanaethau Cymraeg i unigolion yn hytrach na bod disgwyl i gleifion ofyn am y gwasanaeth hwn. [2 farc] | 2 | | | 2 |
| | | *(ii) Esboniwch yn gryno sut mae hyn yn adlewyrchu gwerthoedd craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am esboniad cywir.<br><br>Dylai'r atebion gyfeirio at egwyddorion llais a rheolaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br>• Mae'n rhoi llais i Islwyn a Mari o ran eu gofal. [1 marc]<br>• Mae'n rhoi Islwyn a Mari ynghanol eu gofal, gan roi llais a rheolaeth iddyn nhw i sicrhau'r canlyniadau gorau ar eu cyfer. [2 farc] | | 2 | | 2 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (ch) | *Esboniwch sut mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn helpu i ddiogelu Mari ac Islwyn.*<br><br>Dyfarnwch uchafswm o **3 marc** am esboniad o sut mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)* yn helpu i ddiogelu Mari ac Islwyn.<br><br>Gall yr atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mae'r Ddeddf yn ymwneud â phobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n wynebu risg, fel Islwyn a Mari<br>• cynhelir gwiriadau cyn y gall rhywun ddechrau gweithio fel gofalwr (gydag Islwyn a Mari)<br>• bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd pobl a allai gyflwyno risg (o niwed) i Islwyn a Mari yn gweithio gyda nhw<br>• cynhelir gwiriadau parhaus felly gellid atal gofalwr rhag gweithio gydag Islwyn a Mari os daw pryderon newydd i'r amlwg.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw bwynt dilys arall am sut mae'r Ddeddf yn helpu i ddiogelu Mari ac Islwyn. | | 3 | | 3 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **3 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)* yn helpu i ddiogelu Mari ac Islwyn. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad clir rhwng egwyddorion allweddol y Ddeddf a diogelu Mari ac Islwyn. |
| 2 | **2 farc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)* yn helpu i ddiogelu Mari ac Islwyn. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad rhwng egwyddorion allweddol y Ddeddf a diogelu Mari ac Islwyn. |
| 1 | **1 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae *Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)* yn helpu i ddiogelu Mari ac Islwyn, er nad oes o reidrwydd unrhyw gysylltiadau amlwg rhwng egwyddorion y Ddeddf a diogelu Mari ac Islwyn. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | (a) | *Mae llawer o faterion sy'n effeithio ar iechyd a llesiant pobl yng Nghymru.*<br><br>*Nodwch ystyr y canlynol:*<br><br>*(i) tlodi bwyd*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am ddiffiniad priodol o dlodi bwyd.<br><br>Mae'r atebion posibl yn cynnwys:<br><br>• Methu â phrynu bwyd da. [1 marc]<br>• Methu â chael gafael ar fwyd iach a fforddiadwy. [2 farc]<br><br>*(ii) gordewdra*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am ddiffiniad clir o ordewdra.<br><br>Mae'r atebion posibl yn cynnwys:<br><br>• Mae person gordew yn sylweddol dros bwysau. [1 marc]<br>• Yn gyffredinol, ystyrir bod pobl yn ordew pan fydd indecs màs y corff *(BMI)* yn 30 neu'n uwch. [2 farc] | 2<br><br>2 | | | 2<br><br>2 |
| | (b) | *Mae Rhaglen Mesur Plant Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu gwybodaeth am bwysau a thaldra plant*.<br><br>*Esboniwch yn gryno pam bod y wybodaeth hon yn bwysig i'r GIG yng Nghymru.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am esboniad priodol pam bod gwybodaeth am bwysau a thaldra plant yn bwysig i'r GIG yng Nghymru.<br><br>• Bydd hyn yn helpu'r GIG i gynllunio ar gyfer y dyfodol. [1 marc]<br>• Bydd y wybodaeth a gesglir yn helpu'r GIG i ddeall patrymau twf plant er mwyn iddo allu cynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. [2 farc]<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw bwynt dilys arall pam bod gwybodaeth am bwysau a thaldra plant yn bwysig i'r GIG yng Nghymru. | | 2 | | 2 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Mae'r diagram isod yn dangos canran y plant 4 a 5 oed yng Nghymru sydd o dan bwysau, o bwysau iach, dros bwysau neu'n ordew, rhwng 2012 a 2017.*<br><br>*Edrychwch ar y diagram uchod ac, ym mhob un o'r tablau isod, ticiwch un blwch i ddangos yr ateb cywir.*<br><br>Dyfarnwch **1 marc** am bob ateb cywir:<br><br>(i) Rhes ganol – Rhwng 2012 a 2017, mae canran y plant o bwysau iach wedi lleihau.<br><br>(ii) Rhes waelod – Rhwng 2014 a 2017, mae canran y plant sydd dros bwysau wedi cynyddu. | 1<br><br>1 | | | 1<br><br>1 |
| | (ch) | *Mae'r diagram yn dangos bod tua 1 o bob 4 plentyn 4 a 5 oed yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod hyn yn golygu eu bod yn fwy tebygol o fod dros bwysau pan fyddan nhw'n oedolion.*<br><br>*Trafodwch effaith y ffaith bod plentyn dros bwysau ar ei iechyd a'i lesiant drwy gydol ei gylch oes.*<br>Dyfarnwch hyd at **6 marc** am atebion sy'n trafod sut gall bod dros bwysau effeithio ar iechyd a llesiant plentyn drwy gydol ei gylch oes.<br><br>Dylai atebion gynnwys cyfeiriadau at unrhyw rai o'r canlynol: effeithiau corfforol, deallusol, emosiynol/seicolegol a chymdeithasol bod dros bwysau neu'n ordew drwy gydol y cylch oes. Mae effeithiau posibl yn cynnwys:<br><br>• Effaith gorfforol:<br>  • Mae plant a phobl ifanc gordew yn wynebu risgiau iechyd tebyg fel oedolion<br>  • Os na fydd pwysau'r plentyn yn lleihau yn ddiweddarach yn ei fywyd, bydd risg gynyddol o amrywiaeth o gyflyrau iechyd, e.e. clefyd coronaidd y galon, pwysedd gwaed uchel, strociau, diabetes math 2, rhai canserau, problemau ffrwythlondeb, asthma, apnoea cwsg a chlefyd afu brasterog<br>  • Gall gordewdra leihau disgwyliad oes hyd at 9 blynedd<br>  • Gall bod dros bwysau roi pwysau ychwanegol ar y cymalau a'r coesau, gan ei gwneud hi'n anodd i unigolion fod yn egnïol a chael poen wrth symud, a cheir risg gynyddol o ddatblygu osteoarthritis.<br>  • Mae merched gordew sy'n beichiogi yn wynebu risg uwch yn ystod beichiogrwydd na merched o bwysau iach | | | 6 | 6 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Effaith seicolegol/emosiynol:<br>gall gyfrannu at iselder, gorbryder, hunan-barch isel, anfodlonrwydd corfforol<br><br>• Effaith ddeallusol:<br>gwnaed cysylltiad rhwng magu pwysau â lefelau canolbwyntio gwael, llwyddiant academaidd gwael ac allgáu cymdeithasol<br><br>• Effaith gymdeithasol:<br>Gall ddioddef rhagfarn a gwahaniaethu, e.e. ym maes cyflogaeth, teithio, addysg, gofal iechyd, adwerthu.<br>Gall fod ganddo lai o ffrindiau.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw bwynt dilys sy'n effeithio ar y ffordd gall bod dros bwysau effeithio ar iechyd a llesiant plentyn drwy gydol ei gylch oes. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **Dyfarnwch 5-6 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o effaith bosibl bod dros bwysau drwy gydol y cylch oes. Mae'r ymateb yn darparu barn hyddysg am yr effaith bosibl ar o leiaf dri o'r canlynol: iechyd a llesiant corfforol, seicolegol/emosiynol, deallusol a chymdeithasol. |
| 2 | **Dyfarnwch 3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith bosibl bod dros bwysau drwy gydol y cylch oes. Mae'r ymateb yn darparu rhywfaint o farn am yr effaith bosibl ar o leiaf ddau o'r canlynol: iechyd a llesiant corfforol, seicolegol/emosiynol, deallusol a chymdeithasol. |
| 1 | **Dyfarnwch 1-2 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o effaith bosibl bod dros bwysau drwy gydol y cylch oes. Nid yw'r ymateb yn darparu llawer o farn am yr effaith bosibl ar iechyd a llesiant. |
| 0 | **Dyfarnwch 0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | (a) | *Mae'n bwysig sicrhau bod gennym system iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant gynaliadwy yng Nghymru. Un ffordd mae Llywodraeth Cymru yn anelu at gyflawni hyn yw drwy annog ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd.*<br><br>*Un o nodweddion ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd yw y dylai unigolion dderbyn cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain.*<br><br>*Disgrifiwch un nodwedd arall sy'n gysylltiedig ag ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd.*<br><br>Dyfarnwch hyd at **3 marc** am ddisgrifiad o nodwedd berthnasol sy'n gysylltiedig ag ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd.<br><br>Gall yr atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae ymagwedd iechyd gyfannol yn ystyried y canlynol:<br>• y person cyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar y salwch neu rannau penodol o'r corff<br>• sut mae unigolyn yn rhyngweithio â'i amgylchedd<br>• y cysylltiad rhwng y meddwl, y corff a'r enaid.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw nodwedd berthnasol arall sy'n gysylltiedig ag ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd. | 3 | | | 3 |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd. |
| **2** | **2 farc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd. |
| **1** | **1 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ymagwedd iechyd gyfannol at fywyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Mae'n cael ei amcangyfrif y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn cynyddu 36.6% rhwng 2016 a 2041.*<br>[Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2017]<br><br>*Dadansoddwch sut mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o ddylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.* [6]<br><br>Dyfarnwch hyd at **6 marc** am ddadansoddiad clir o sut mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o ddylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.<br><br>Gallai'r ymatebion gyfeirio at:<br>• mae'n debygol bydd mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gan fod angen mwy o gymorth yn aml ar bobl hŷn a/neu fod ganddynt anghenion mwy cymhleth<br>• mae galw cynyddol yn debygol o olygu bydd y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn costio mwy, felly mae'n bosibl y bydd angen i ffynonellau cyllido newid<br>• bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gydweithio'n agosach er mwyn darparu gwasanaeth cost-effeithiol, er mwyn helpu i sicrhau bod y system yn gynaliadwy<br>• mae'n debygol y bydd mwy o ffocws ar ymyrryd yn gynnar a gofal ataliol, er mwyn osgoi derbyn unigolion i'r ysbyty a'r angen am becynnau gofal cymhleth<br>• gall fod angen cynyddu nifer y bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, er mwyn bodloni anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw bwynt dilys arall sy'n gysylltiedig â'r ffordd mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o ddylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. | 3 | | 3 | 6 |

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o effaith debygol poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru. | **3 marc**<br>Dadansoddiad da iawn gan gynnwys barnau rhesymegol am sut mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o ddylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad clir rhwng effaith poblogaeth sy'n heneiddio a'i dylanwad tebygol ar y broses o ddarparu gwasanaethau. |
| **2** | **2 farc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith debygol poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru. | **2 farc**<br>Dadansoddiad da gan gynnwys rhai barnau am sut mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o ddylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. Mae'r ymateb yn creu cysylltiad cyffredinol rhwng effaith poblogaeth sy'n heneiddio a'i dylanwad tebygol ar y broses o ddarparu gwasanaethau. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o effaith debygol poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru. | **1 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol nad yw'n dangos llawer o dystiolaeth o sut mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o ddylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Mae'n bwysig i unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain.*<br><br>*Aseswch sut mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.* [6]<br><br>Dyfarnwch hyd at **5 marc** am dystiolaeth o ddealltwriaeth o sut gall annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru, a hyd at **5 marc** am asesu hyn a dod i gasgliadau rhesymegol.<br><br>Dylai'r ymatebion gyfeirio at y ffordd mae annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn lleihau'r pwysau ar y broses o ddarparu gwasanaethau. Dylai'r ymatebion gynnwys barnau rhesymegol am y ffordd mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.<br>Os bydd unigolion yn cymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain:<br>• maent yn debygol o fod yn iachach yn hirach. Gall hyn olygu y bydd angen cymorth llai o wasanaethau gofal a chymorth arnyn nhw, neu na fydd angen y gwasanaethau hynny arnyn nhw tan yn ddiweddarach yn eu bywyd<br>• byddan nhw'n yn lleihau'r risg o ddioddef cyflyrau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw afiach, fel clefyd y galon a diabetes math 2. Gall hyn olygu llai o alw am driniaeth ddrud (e.e. llawdriniaeth ar y galon – triniaeth untro, cost uchel; a/neu ddefnydd tymor hir o gyffuriau i reoli cyflyrau cronig - costau parhaus)<br>• maent yn debygol o fod yn fwy ymwybodol o faterion iechyd ac i ofyn am gyngor am eu pryderon yn gynharach. Gall hyn olygu bydd unrhyw driniaeth neu ofal sydd ei angen yn fwy effeithiol ac y gallai fod ei angen am gyfnod byrrach na phetai'r ymyrraeth wedi dechrau'n ddiweddarach<br>• maent yn debygol o gymryd camau ataliol, a allai fod yn gysylltiedig â'u ffordd o fyw neu geisio ymyrryd yn briodol yn gynnar. Er enghraifft, gall gofyn am gymorth i osod canllaw ar y grisiau gartref atal y gofid a'r costau sy'n gysylltiedig â'r gofal meddygol a/neu gymdeithasol sydd ei angen ar ôl syrthio.<br><br>Gallai'r barnau gynnwys cyfeiriadau at gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru, mewn perthynas â'r canlynol:<br>• llai o bwysau ar wasanaethau yn gyffredinol<br>• llai o bwysau ar wasanaethau sy'n ymwneud â chyflyrau y gellir eu hatal, er mwyn gallu cyfeirio adnoddau lle mae eu hangen fwyaf<br>• mae'n rhaid i'r gwasanaethau gofal a chymorth weithio o fewn yr adnoddau sydd ar gael (staffio a chyllid) nad ydynt yn ddiderfyn.<br><br>Gall ymgeiswyr ymateb o safbwynt cadarnhaol neu negyddol. Hynny yw, '*pan fydd unigolion yn cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, mae'r effaith gadarnhaol ar wasanaethau fel a ganlyn*….'. neu, '*os na fydd unigolion yn cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, mae'r effaith negyddol ar wasanaethau fel a ganlyn*...' Dylid rhoi credyd am y naill ymagwedd neu'r llall, ond ni ddylid rhoi credyd ddwywaith ar gyfer ymateb un ymgeisydd.<br><br>Dylid rhoi credyd am unrhyw bwynt dilys arall sy'n ymwneud â'r ffordd *gall annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.* | | 5 | 5 | 10 |

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **3** | **5 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos tystiolaeth glir o ddealltwriaeth o sut gall annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. | **5 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n asesu ac yn dod i gasgliadau rhesymegol ynghylch sut gall annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymateb wedi'i fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth o sut gall annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n asesu ac yn dod i rai casgliadau ynghylch sut gall annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymateb wedi'i fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda ar y cyfan gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu gweddol gywir. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol nad yw'n dangos llawer o dystiolaeth o ddealltwriaeth o sut gall annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n gwneud rhywfaint o ymdrech i asesu sut gall annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu llesiant eu hunain effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

**Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu**

**Uned 3**

| Cwestiwn | | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran | | | | Rhan | Cyfanswm Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | | 2.3.1 | 2.3.2 | 2.3.3 | 2.3.4 | | | | | |
| **1** | | (i) | | | | 1 | (b) | **1** | 1 | 0 | 0 |
| | | (ii) | | | | 1 | (b) | **1** | 1 | 0 | 0 |
| | | (iii) | | 1 | | | (a) | **1** | 1 | 0 | 0 |
| **2** | (a) | | 2 | | | | (c) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| | (b) | | 1 | | | | (c) | **1** | 1 | 0 | 0 |
| **3** | | (i) | | | | 1 | (b) | **1** | 1 | 0 | 0 |
| | | (ii) | | | | 3 | (b) | **3** | 3 | 0 | 0 |
| **4** | (a) | | | 4 | | | (a) | **4** | 0 | 4 | 0 |
| | (b) | | | 2 | | | (a) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| | (c) | | 6 | | | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| **5** | (a) | | 2 | | | | (a) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| | (b) | (i) | 2 | | | | (b) | **2** | 0 | 2 | 0 |
| | | (ii) | 2 | | | | (b) | **2** | 0 | 2 | 0 |
| | (c) | | 2 | | | | (b) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| **6** | (a) | | 4 | | | | (c) | **4** | 0 | 4 | 0 |
| | (b) | | | | | 6 | (b) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| | (c) | (i) | 2 | | | | (ch) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| | | (ii) | 2 | | | | (c) | **2** | 0 | 2 | 0 |
| | (ch) | | | 3 | | | (a) | **3** | 0 | 3 | 0 |
| **7** | (a) | | | | 4 | | (a) | **4** | 4 | 0 | 0 |
| | (b) | | | | 2 | | (a) | **2** | 0 | 2 | 0 |
| | (c) | | | | 2 | | (a) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| | (ch) | | | | 6 | | (a) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| **8** | (a) | | | | | 3 | (a) | **3** | 3 | 0 | 0 |
| | (b) | | | | 6 | | (a) | **6** | 3 | 0 | 3 |
| | (c) | | | | | 10 | (a) | **10** | 0 | 5 | 5 |
| Cyfanswm marciau | | | **25** | **10** | **20** | **25** | | **80** | **30** | **30** | **20** |